**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Awst 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | A Davis | J W Jones |
| W G Lewis | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| Catherine Watkins | Cydlynydd Panel a Swyddog Cludiant Arweiniol - Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale, R D Lewis a/ac H M Morris

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

## 11 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Nodwyd y polisi Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol.

## 12 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.

Nodwyd Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru.

## 13 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 14 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Dywedodd Cath Watkins, yn dilyn trafodaethau diweddar ac eglurhad o weithdrefnau penodol a materion gweithredol gyda'r rhieni, dyrannwyd lle ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ar gludiant ysgol brif ffrwd ac felly, tynnwyd yr apêl yn ôl.

Dywedodd y byddai swyddogion o'r tîm cludiant yn trefnu man gollwng/codi addas ar gyfer y plentyn yn fuan ar y cyd â'r rhieni.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.04 am

**Cadeirydd**